**Cofnodion Cyfarfod 01/02/2021 - drwy Zoom**

**Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| L T Davies | D M Evans (Yn y gadair) |
| G Jones | W A Roberts |
| G A Williams | J S Jenkins |
| Cynyr Ifan | M Davies |

**Ymddieuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng Mair Evans a Heledd Clayton.

**Materion Personol**
Wnaeth y Cyng W Roberts dynu sylw'r Cynghorwyr at y ffaith fod yna flwyddyn bellach wedi mynd heibio ers colli'r Cyng Susan Kean. Mawr ydy'r golled a'r bwlch y mae wedi gadael nid yn unig o fewn y Cyngor ond ei theulu ynghyd a'r Gymuned gyfan.

**Cofnodion**
Cynigiwyd cofnodion mis Ionawr yn gywir gan y Cyng J S Jenkins ac ategwyd hyn gan y Cyng L T Davies.

**Materion yn Codi o'r Cofnodion**
*Dŵr Cymru* Mae'r cwmni bellach wedi cwblhau'r gwaith o ail osod y biben ar y traeth. Penderfynwyd cysylltu gyda'r cwmni ynglyn a chyflwr y rheiliau ger y 'Patio' Llangrannog ynghyd a gordyfiant coed ar eu safle gyferbyn a Dolhawen, Pontgarreg.

*Cae Cymunedol* Mi fydd y Cyng D M Evans yn gofyn i'r contractwr sy'n mynd i dorri coed o amgylch y neuadd i roi pris am y gwaith o amgylch y cae cymunedol. Mi fydd y clerc hefyd yn gofyn i gwmni D E Owen a'i Fab am bris tuag at ychwanegu clawdd yr Ysgol at gytundeb y Cyngor Cymuned.

*Jamsons* Nid oedd y cwmni wedi bwriadu torri'r clawdd rhwng Pant a lle y maent eisoes wedi torri. Er hynny mi fyddant yn ymweld a'r lleoliad i wneud penderfyniad. Y maent hefyd wedi adrodd ei fod yn fwriad ganddynt i orffen datblygu'r safle. Cytunwyd y dylid ysgrifennu at y Cyngor Sir er mwyn sefydlu beth ydy'r sefyllfa o safbwynt y caniatad cynllunio. Deallir fod y caniatad blaenorol yn mynd yn ôl i ddiwedd y 70au neu ddechrau'r 80au.

*Craciau yn y Ffordd* Mae'r Cyngor Sir wedi adrodd ei bod wedi llenwi rhai o'r craciau. Er hynny mae angen rhagor o waith yno. Mae angen i beiriannwyr ymweld gyda'r pentref oherwydd y sefyllfa fregus sy'n bodoli. Mae yna dirlithriad arall wedi digwydd ac mae yna bryder ynglyn a sefydlogrwydd tir mewn nifer o leoliadau gan gynnwys ochr y Capel ynghyd a'r lôn o'r pentref i fyny at Sea View. Mi fydd y clerc yn cyflwyno cais am gyfarfod safle.

**Gohebiaeth**
*Hen Ffynnon Fair Llangrannog* Derbyniwyd e-bost oddi wrth James Stewart, Gwaelod y Garth. Mi roedd eisiau sefydlu beth oedd barn y Cyngor ynglyn a chyflwr y ffynnon. Cytunwyd fod eisiau gwneud gwaith i glirio'r safle ar y cyd gyda'r Pwyllgor Lles ac ymateb drwy ddweud ein bod yn ymwybodol o'r sefyllfa bresennol. Cafwyd trafodaeth ynglyn a'r posibilrwydd o roi arwydd ger y lleoliad yn rhybuddio'r cyhoedd am nad ydy ansawdd y dŵr yn addas i'w yfed. Mi fydd y Cyng Cynyr Ifan yn trafod y mater gyda'r Pwyllgor Lles.

**Taliadau**
Archwilio Cymru - £285.25
Neuadd Goffa Pontgarreg - £30.00
Defib World - £219.99

**Unrhyw Fater Arall**
*Ffosydd rhwng Ffynnonlas a Chnwcgwyn* Mae angen sylw ar y ffosydd rhwng y lleoliadau yma ynghyd a'r gwter ar y cornel gwaelod ar bwys arwydd Blaencelyn. Mae yna ddŵr hefyd yn rhedeg o Gnwcgwyn lawr am Blaencelyn ar ochr y ffordd ac yn gadael gwastraff dail ac ati wrth ymyl y ffordd. Mae'r clerc wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir.

*Gwter ar y B4321 ochr ucha'r Hendre at gyfeiriad Glyn Coch Isaf* Mae dŵr yn llifo ar hyd arwyneb y ffordd oherwydd fod y gwteri yn llawn. Mae angen i'r Cyngor Sir eu gwacau.

*Llety'r Maes* Y Cyngor Sir sydd yn berchen ac yn tocio'r coeden ar y ffordd yn y lleoliad yma. Mae angen torri'r goeden yn ôl er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffordd.

*Brechiadau COVID* Wnaeth y Cyng W Roberts adrodd fod llawer o fobl eisoes wedi cael eu brechu. Er hynny mae Elin Jones AS yn gofyn i unrhyw un sydd yn y categori derbyn brechiad ond heb ei gael eto i gysylltu gyda hi.

*Catrefi Symudol* Wnaeth y Cyng Cynyr Ifan adrodd fod catref symudol wedi parcio wrth ymyl y ffordd yn y pentref yn ystod y cyfnod clo' presennol. Mae'r clerc wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir rhai misoedd yn ôl ynglyn a'r broblem gynyddol yma. Dylid cysylltu gyda'r Heddlu ynglyn ag unrhyw engreifftiau tebyg.

*Penlon, Llangrannog* Mi fydd y clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglyn i sefydlu a oes angen caniatad cynllunio ar y adeilad sydd wedi ei godi ger yr annedd.

.